# Llwybr y Pererinion yn Eglwys Sant Tysilio



Croeso i eglwys hardd Sant Tysilio.

Os oes plant yma gyda chi, beth am i chi ymuno â Tedi Horsley a dilyn ein Llwybr Pererinion.

Mae Llwybr y Pererinion yn mynd â chi o gwmpas 6 rhan bwysig o'r eglwys a'r Ynys. Ym mhob un o'r 6 safle, mae cerdyn fydd yn eich helpu i ddysgu am Sant Tysilio a dysgu sut mae'r gymuned Gristnogol wedi cadw'r ffydd Gristnogol yn fyw yn y man hwn trwy'r canrifoedd. Mae lle arbennig wedi ei neilltuo i chi hefyd yn y stori.


## Sut i ddilyn Llwybr y Pererinion

Mae 6 cerdyn gwahanol, un ar gyfer rhannau pwysig yr eglwys a'r Ynys.

1. Cymrwch un cerdyn ar y tro.
2. Darllenwch y cerdyn gyda'ch plentyn neu gyda'ch plant.
3. Siaradwch am y cwestiynau gyda'ch gilydd. Does dim atebion cywir neu anghywir, dim ond syniadau i'ch helpu i feddwl am yr eglwys ac am eich bywyd gyda'ch gilydd fel teulu neu ffrindiau.
4. Os oes amser gennych chi, tynnwch lun ar y daflen 'Fy Nghragen Bererindod' sy'n cael ei darparu ar eich cyfer. (Mae'r chwe llun ar gyfer pob cerdyn yn cwblhau cragen bererindod sy'n bersonol i chi.)

Gwnewch gymaint (neu cyn lleied) ag y dymunwch chi. Cofiwch, fel pob pererin, mae croeso bob amser i chi ddod yn ôl eto ar ddiwrnod arall.

Rydym yn gobeithio eich bod yn mwynhau bod yma gyda'ch gilydd yn y man sanctaidd hwn. Yn ôl arfer pererinion o'ch blaen chi dros y canrifoedd, cymrwch gragen i fynd â hi gyda chi i gofio am eich ymweliad ag eglwys Sant Tysilio.



Os hoffech chi ragor o bethau i'w gwneud a'u dysgu, ewch i edrych ar wefan Tedi Horsley ar: www.teddyhorsley.org

 © Lesley Rendle, Tania ap Siôn & Leslie J Francis, 2015

# 1. Y Bedyddfaen

## Cwrdd â Tedi Horsley



Mae Tedi Horsley'n agor y drws ac yn mynd i
mewn i'r eglwys.
Mae'n gweld y bedyddfaen yn ymyl y drws
ac yn teimlo'r garreg arw.
Mae'n rhoi ei bawen yn y dŵr claear
ac yn clywed y crychdonnau'n sblasio.

Mae Tedi Horsley'n edrych ar y ffotograff.
Mae'n gweld llun y ficer yn bedyddio'r baban
gan ddefnyddio'r dŵr claear
a llefaru enw bedydd y baban.

Mae Tedi Horsley'n dysgu
bod Sant Tysilio
wedi bedyddio pobl
yn yr union le hwn
ers talwm.



### Pethau i sgwrsio amdanyn nhw




Ydych chi'n gallu cofio mynd i wasanaeth bedydd?

Beth sy'n digwydd mewn gwasanaeth bedydd?

Ydych chi wedi cael eich bedyddio?

### Pethau i'w gwneud



Ysgrifennwch eich enw bedydd a'i addurno'n ofalus.

 © Lesley Rendle, Tania ap Siôn & Leslie J Francis, 2015

## Cwrdd â Tedi Horsley



Mae Tedi Horsley'n dod i mewn i ganol yr eglwys.
Mae'n edrych ar y seddau hir
ac yn eistedd yn ddistaw yn y tawelwch.
Mae'n edrych i fyny'n uchel ac yn gweld y to pren
yn edrych yn union fel cwch â'i ben i waered.

Mae Tedi Horsley'n edrych ar y ffotograff.
Mae'n gweld llun yr eglwys yn llawn o bobl
fel cwch yn barod i hwylio.

Mae Tedi Horsley'n dysgu
bod Sant Tysilio wedi cyrraedd
yr union le hwn
ar gwch ers talwm.



## Pethau i sgwrsio amdanyn nhw




Ble byddech chi'n hoffi hwylio yn eich cwch chi?

Pwy fyddech chi'n hoffi ei gael gyda chi yn eich cwch?

Pa syndod a pheryglon y byddech chi'n debygol o'u canfod ar eich taith?

## Pethau i'w gwneud

Tynnwch lun o'ch cwch ar eich taith chi.



 © Lesley Rendle, Tania ap Siôn & Leslie J Francis, 2015

## Cwrdd â Tedi Horsley



Mae Tedi Horsley'n cerdded i du blaen yr eglwys.
Mae'n gweld yr allor yn y pen pellaf
ac mae'n rhedeg ei bawen ar hyd wyneb yr allor.

Mae Tedi Horsley'n edrych ar y ffotograff.
Mae'n gweld llun y ficer yn gweinyddu'r cymun
yn torri'r bara ac yn arllwys y gwin
i'w rannu â phawb.

Mae Tedi Horsley'n dysgu
bod Sant Tysilio wedi torri'r bara
ac arllwys y gwin
yn yr union le hwn
ers talwm.



### Pethau i sgwrsio amdanyn nhw




Pa bryd ydych chi'n cofio rhannu pryd bwyd gyda phobl eraill?

Ble roeddech chi, a phwy oedd gyda chi'n rhannu'r pryd bwyd hwnnw?

Ydych chi'n gallu cofio mynd i wasanaeth cymun?

### Pethau i'w gwneud



Tynnwch lun ohonoch chi eich hun yn rhannu pryd bwyd gyda phobl eraill.

 © Lesley Rendle, Tania ap Siôn & Leslie J Francis, 2015

## Cwrdd â Tedi Horsley



Mae Tedi Horsley'n cerdded i du blaen yr eglwys.
Mae'n gweld y Beibl mawr
ac mae'n troi'r tudalennau printiedig.
Mae'n agor ei geg yn llydan
ac yn llefaru'r geiriau'n uchel.

Mae Tedi Horsley'n edrych ar y ffotograff.
Mae'n gweld llun o'r ficer yn darllen y Beibl
i'r bobl yn yr eglwys.

Mae Tedi Horsley'n dysgu
bod Sant Tysilio wedi darllen
y Beibl i'r bobl
yn yr union le hwn
ers talwm.



### Pethau i sgwrsio amdanyn nhw




Pa un yw eich hoff lyfr? Pam eich bod chi'n hoff ohono?

Oes Beibl gennych chi gartref?

Ydych chi'n gwybod unrhyw storïau o'r Beibl?

### Pethau i'w gwneud



Tynnwch lun o'ch hoff stori o'r Beibl. Rhowch eich hun yn y llun.

 © Lesley Rendle, Tania ap Siôn & Leslie J Francis, 2015

# 5. Y Ffenestr — Llwybr y Pererinion

## Cwrdd â Tedi Horsley



Mae Tedi Horsley'n sefyll yn llonydd iawn yn
yr eglwys.
Mae'n syllu i fyny ar y ffenestr fawr liwgar
ac yn gweld y goleuni'n disgleirio trwyddi.
Yn y ffenestr, mae'n gweld llun
bedd gwag Iesu ar Sul y Pasg.

Mae Tedi Horsley'n edrych ar y ffotograff.
Mae'n gweld llun y milwyr yn edrych yn gysglyd
a'r angylion yn edrych yn hapus.

Mae Tedi Horsley'n dysgu
bod Sant Tysilio wedi siarad
yn yr union le hwn
ers talwm am atgyfodiad Iesu.




### Pethau i sgwrsio amdanyn nhw




Pa bryd byddwch chi'n teimlo'n hapus? Pa bryd byddwch chi'n teimlo'n ofnus?

Beth ydych chi'n gallu ei weld yn y ffenestr?

Pa ran o stori'r Pasg yw eich hoff ran chi?

### Pethau i'w gwneud

Tynnwch lun o'r ffenestr. Rhowch eich hun yn y llun.




© Lesley Rendle, Tania ap Siôn & Leslie J Francis, 2015

# 6. Y Fynwent — Llwybr y Pererinion

## Cwrdd â Tedi Horsley



Mae Tedi Horsley'n mynd allan i'r fynwent.
Mae'n dringo'r stepiau at y gofeb rhyfel
ac yn edrych o'i gwmpas ar yr olygfa.
Mae'n edrych i lawr ar y cerrig beddau
ac yn meddwl am y bobl fu farw ers talwm.

Mae Tedi Horsley'n edrych ar y ffotograff.
Mae'n gweld llun gwasanaeth Sul y Cofio
a phobl yn gweddïo am heddwch yn y byd.

Mae Tedi Horsley'n dysgu
bod yn Sant Tysilio wedi dod
i'r ynys ers talwm
er mwyn dianc rhag rhyfel
a gweithio er mwyn heddwch.



### Pethau i sgwrsio amdanyn nhw




Beth ydych chi'n ei weld pan fyddwch chi'n edrych allan o'r fynwent?

Beth ydych chi'n ei glywed pan fyddwch chi'n edrych allan o'r fynwent?

Beth ydych chi'n ei arogli pan fyddwch chi'n edrych allan o'r fynwent?


### Pethau i'w gwneud



Tynnwch lun i'ch helpu chi gofio am y lle hwn.

 © Lesley Rendle, Tania ap Siôn & Leslie J Francis, 2015

# Fy Nghragen Bererindod




© Lesley Rendle, Tania ap Siôn & Leslie J Francis, 2015